Arfer Da mewn Mentora Athrawon Cynradd dan Hyfforddiant yng Nghymru

Medi 2001

Cynnwys		Tudalen
1.	Cyflwyniad	1
2.	Canllaw ysgrifenedig	2
3.	Hyfforddiant ar gyfer mentoriaid	4
4.	Mentora mewn ysgolion	7
5.	Dylanwad mentora effeithiol	11
6.	Y ffordd ymlaen	15

1. Cyflwyniad

Diben yr adroddiad

Mae sefydliadau addysg uwch yn gynyddol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd i fentora athrawon cynradd dan hyfforddiant mewn ysgolion. Athrawon dynodedig yw mentoriaid sy'n cymryd cyfrifoldeb am hyfforddeion pan fyddant yn eu hysgol. Diben yr adroddiad hwn yw amlinellu nodweddion arfer da mewn fentora, a dangos y dylanwad y mae mentora effeithiol yn ei gael ar bawb sy'n ymwneud â'r bartneriaeth fentora. Dylai'r adroddiad fod o gymorth i sefydliadau addysg uwch a'u hysgolion cynradd partner i arfarnu a gwella'r mentora mewn perthynas ag athrawon cynradd dan hyfforddiant yng Nghymru.

Sylfaen tystiolaeth yr adroddiad

Seilir yr adroddiad hwn ar wybodaeth a gafwyd o arolwg o bump o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon a sampl o'u hysgolion partner, a gynhaliwyd yn nhymor y gwanwyn a thymor yr haf 2001. Bu AEM yn archwilio dogfennau partneriaeth, yn cynnal trafodaethau gyda thiwtoriaid coleg, mentoriaid a hyfforddeion ac yn arsylwi sesiynau hyfforddi mentoriaid. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar dystiolaeth o arolygiadau llawn y tri sefydliad hyfforddiant cychwynnol athrawon a arolygwyd yn ystod 1999-2001.

2. Y canllaw ysgrifenedig

Canllaw ysgrifenedig i fentoriaid a hyfforddeion

Lle mae trefniadau partneriaeth wedi eu sefydlu'n dda, mae'r canllawiau ysgrifenedig i fentoriaid a hyfforddeion o ansawdd da. Caiff gofynion y bartneriaeth, rolau a chyfrifoldebau mentoriaid a'r disgwyliadau gan hyfforddeion eu nodi a'u disgrifio'n effeithiol. Cyflwynir canllawiau ymarferol yn glir ac yn gryno, a byddant yn cael eu diweddaru'n rheolaidd trwy ymgynghori â mentoriaid.

Mae nifer cynyddol o ysgolion yn cynhyrchu canllawiau ysgrifenedig ar gyfer hyfforddeion yn eu hysgolion. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi i'r hyfforddeion gyflwyniad defnyddiol i fywyd ysgol. Yn yr achosion gorau, cafodd hyfforddeion gopi o'r canllawiau ysgrifenedig hyn cyn cychwyn ar eu lleoliad ysgol.

Mae nodweddion canllawiau ysgrifenedig effeithiol yn cynnwys:

- amlinelliad eglur o egwyddorion partneriaeth;
- polisïau ar gyfer mentora hyfforddeion sy'n berthnasol i gyd-destun ieithyddol a daearyddol yr ysgolion a'r sefydliad addysg partner;
- gwybodaeth gefndir am yr ysgol;
- gofynion a disgwyliadau'r ysgol gan hyfforddeion;
- cyngor ar reoli partneriaeth a threfniadau sicrhau ansawdd;
- rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n dda ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r bartneriaeth;
- rhestrau cyfeirio ac atgoffa defnyddiol ar gyfer hyfforddeion, staff y coleg a mentoriaid ysgol;
- arweiniad ar ddarparu cynhaliaeth i hyfforddeion ar gynllunio ac asesu;
- gofynion penodol ar gyfer asesu cynnydd hyfforddeion;
- cyngor ar asesu dysgu'r hyfforddeion a llenwi ffurflenni asesu;
- enghreifftiau o adborth ysgrifenedig da a gosod targedau;
- enwau a chyfeiriadau cyswllt i gynorthwyo cyfathrebu o fewn y bartneriaeth;
- ffurflenni arfarnu i alluogi hyfforddeion i roi adborth ar gryfderau a gwendidau eu profiad yn yr ysgol; a
- ffeiliau partneriaeth â mynegai codau lliw sy'n hwyluso defnydd gan ysgolion.

Enghreifftiau o ganllawiau ysgrifenedig effeithiol

Astudiaeth achos 1: canllawiau ysgrifenedig effeithiol gan y sefydliad addysg uwch

Mae ysgolion partner yn cael canllawiau a deunyddiau cynnal manwl i'w cynorthwyo i gynllunio rhaglen goeth o seminarau fel atodiad i ddarlithoedd coleg mewn addysg ac astudiaethau proffesiynol. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys cyflwyniad manwl i'r ysgol. Mae mentoriaid yn deall cynnwys y cwrs sy'n seiliedig yn y coleg, ac yn gwneud defnydd da o'u copïau eu hunain o werslyfrau gosod y coleg mewn seminarau yn yr ysgol.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- rhaglen seminar mewn ysgol sydd â chyswllt agos â'r cwrs yn y coleg; a
- chanllawiau manwl sy'n sicrhau bod yr holl ysgolion partner yn deall eu cyfrifoldebau wrth ddarparu hyfforddiant yn yr ysgol.

Astudiaeth achos 2: canllawiau ysgrifenedig effeithiol gan yr ysgol

Mae'r uwch fentor mewn un ysgol gynradd wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer lleoliadau ysgol yr hyfforddeion. Mae'r pecyn hwn yn rhoi gwybodaeth ar wahân i hyfforddeion sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar a chyfnodau allweddol 1 a 2. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- y polisi mentora;
- prosbectws yr ysgol;
- polisïau'r ysgol, er enghraifft, ar ddisgyblaeth, llawysgrifen, marcio ac iechyd a diogelwch;
- arweiniad ar drefnu'r ystafell ddosbarth;
- gwybodaeth am ddysgu drwy chwarae i ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar;
- enghreifftiau o drefniadau cynllunio ac asesu a ddefnyddir gan yr ysgol;
- manylion am yr hyn y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl gan ei hyfforddeion; a
- thaflen arfarnu ar gyfer sylwadau hyfforddeion.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- darparu cynhaliaeth a chanllawiau ysgrifenedig;
- gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r hyfforddai yn ystod y lleoliad;
- disgwyliadau eglur gan hyfforddeion o ran eu rôl ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd; ac
- arfarniad a ddefnyddir i wella trefniadau yn yr ysgol.

3. Hyfforddiant ar gyfer mentoriaid

Hyfforddiant gan sefydliadau addysg uwch i fentoriaid

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch yn cynnig sesiynau hyfforddi rheolaidd i fentoriaid. Mae'r hyfforddi'n effeithiol pan fydd yn bodloni anghenion penodol y mentoriaid a'r ysgolion. Yn yr arfer gorau, mae mentoriaid newydd yn cael cyfnod sefydlu sydd wedi'i gynllunio'n dda, a chânt eu hyfforddi yng nghamau amrywiol cyrsiau hyfforddeion. Mae mentoriaid profiadol yn derbyn diweddariad yn rheolaidd a chyfrannant at sesiynau hyfforddi drwy rannu arfer da. Mae'r hyfforddiant yn arbennig o effeithiol pan fydd mentoriaid yn cael eu hannog i gydnabod pwysigrwydd datblygu eu rhaglenni hyfforddi eu hunain yn yr ysgol. Bydd hyn yn galluogi hyfforddeion i ddod yn rhan o fywyd cyfan yr ysgol yn fuan ac yn hyderus.

Mae nodweddion hyfforddiant mentora effeithiol mewn sefydliadau addysg uwch yn cynnwys:

- cyngor ac arweiniad ymarferol i fentoriaid, weithiau ar ffurf deunyddiau enghreifftiol ar fideo;
- cyfleoedd i fentoriaid drafod eu profiadau o weithio gyda hyfforddeion;
- sesiynau diweddaru rheolaidd ar faterion cyfredol;
- ffocws ar arfer mentora da;
- gweithdai'n seiliedig ar safoni ac asesu perfformiad hyfforddeion yn ystod eu lleoliad ysgol;
- enghreifftiau o sylwadau ysgrifenedig effeithiol yn dilyn arsylwi a'r adborth a ddarperir gan fentoriaid profiadol; a
- hyfforddiant cyfrwng Cymraeg lle bo'i angen.

Hyfforddiant i ysgolion

Mae prif nodweddion hyfforddiant mentora effeithiol mewn ysgolion yn cynnwys:

- cysylltiadau agos â'r hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliadau addysg uwch;
- sesiynau diweddaru rheolaidd ar gyfer staff ynghylch gofynion y coleg a'r safonau a ddisgwylir gan hyfforddeion;
- cyflwyniad trylwyr i rôl a chyfrifoldebau mentor; a
- monitro gan uwch staff o'r ysgol a'r sefydliad addysg uwch partner.

Enghreifftiau o arfer da mewn hyfforddiant mentora

Astudiaeth achos 3: hyfforddiant mentora effeithiol gan y sefydliad addysg uwch

Mae dau diwtor coleg yn rhoi hyfforddiant mentora i'r holl athrawon mewn un ysgol bartner. Yn ystod yr hyfforddiant, mae staff yn ymgyfarwyddo â gofynion y bartneriaeth. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'u rôl fel mentoriaid, ac yn sefydlu system ar gyfer safoni gwaith yr hyfforddeion yn eu hysgol. Yn gyfnewid, mae'r pennaeth yn darparu sesiwn defnyddiol iawn i hyfforddeion yn y sefydliad addysg uwch ar asesu, cofnodi ac adrodd ar gynnydd disgyblion.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- pob aelod o staff yr ysgol yn ymgyfarwyddo â gofynion y bartneriaeth;
- y pennaeth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y cwrs yn y coleg;
- cydnabod yr angen i fentoriaid gyflwyno system ar gyfer safoni eu hasesiad o'r dysgu; ac
- arfarnu ar gyfer diweddaru gwybodaeth.

Astudiaeth achos 4: hyfforddiant mentora wedi'i dargedu'n dda

Mae un sefydliad addysg uwch yn trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer mentoriaid ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gwaith yn y coleg a gwaith yn yr ysgol, sef mater a nodir yn adroddiadau arolygiadau Estyn. Mae'r sesiwn yn cynnwys cyflwyniad o ansawdd da gan diwtoriaid coleg a mentoriaid profiadol. Yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y caiff technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ei chynnwys yn y pynciau craidd yn y cwrs yn y coleg, mae mentoriaid yn cael gwybodaeth ddefnyddiol iawn ynghylch gwefannau perthnasol i'w defnyddio gyda disgyblion a hyfforddeion yn eu hysgolion eu hunain. Fel rhan o'r sesiwn, mae grŵp bach o hyfforddeion blwyddyn olaf yn amlinellu eu profiad o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr ysgol. Mae sylwadau'r hyfforddeion yn amlygu'r gwahaniaeth yn ansawdd yr agwedd hon ar y ddarpariaeth rhwng ysgolion partner ac yn helpu i nodi lle mae arfer effeithiol. Mae'r mentoriaid yn datblygu dealltwriaeth glir o'r hyn y mae hyfforddeion a staff yn y coleg yn ei ddisgwyl yn ystod lleoliad mewn ysgol.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar faes datblygu a chynnal a nodir yn ardroddiadau arolygiadau Estyn;
- hyfforddiant a ddarperir ar y cyd gan fentoriaid, tiwtoriaid coleg a hyfforddeion;
- gwybodaeth ddefnyddiol i fentoriaid i'w defnyddio gyda hyfforddeion a disgyblion; ac
- anogaeth i fentoriaid rannu gwybodaeth gydag athrawon eraill yn eu hysgol.

4. Mentora mewn ysgolion

Mentora fel gweithgaredd ysgol-gyfan

Mae arfer effeithiol mewn mentora yn yr ysgol yn aml yn adlewyrchu ymrwymiad ysgol-gyfan i roi cynhaliaeth i athrawon cynradd dan hyfforddiant. Lle mae ysgolion wedi ymrwymo i'r bartneriaeth, mae rôl y mentor a thwf medrau mentora yn agwedd bwysig ar ddatblygiad staff. Yn yr ysgolion hyn, mae'n arferol i lawer aelod o'r staff gael hyfforddiant fel mentoriaid. Mae hyfforddeion mewn ysgolion sy'n gweithio yn y dull hwn yn gallu troi nid yn unig at eu mentor, ond hefyd at arbenigedd athrawon eraill yn yr ysgol, gan gynnwys y rheini ag arbenigeddau pwnc, cydlynwyr a'r rheini sy'n arddangos yr arfer gorau. Fel arfer, aelod o'r uwch-dîm rheoli sy'n trefnu'r mentoriaid yn yr ysgol, yn gweithredu fel tiwtor i'r hyfforddeion mewn agweddau bugeiliol ac ysgol gyfan, ac yn gweithredu fel cyswllt gyda'r sefydliad addysg uwch.

Mae mentora effeithiol yn elwa ymhellach mewn ysgolion lle mae systemau da ar gyfer cynllunio, monitro ac arfarnu gwaith mentoriaid a hyfforddeion fel ei gilydd. Mae gan ysgolion o'r fath ddisgwyliadau uchel gan yr hyfforddeion. Mae'r staff yn ystyried hyfforddeion fel cydweithwyr ac yn eu trin yn unol â hynny. Yn yr ysgolion hyn, mae'r staff yn cydnabod angen yr hyfforddeion am gynhaliaeth sydd wedi'i thargedu'n dda fel agwedd bwysig ar fentora effeithiol. Yn yr arfer gorau, mae penaethiaid yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion disgyblion, staff a hyfforddeion wrth benderfynu nifer ac amlder lleoliadau y gall eu hysgolion eu cynnig.

Mae cynllunio effeithiol ar gyfer gwaith hyfforddeion mewn ysgol yn meddu ar nodweddion fel y canlynol:

- cyflwyniad i'r ysgol sy'n cynnwys dogfennaeth sy'n benodol i'r ysgol, ei chyd-destun, ei hethos, ei threfniadau a'i pholisïau staffio a threfn ddyddiol;
- cyfleoedd i droi at gynlluniau gwaith, cynllunio athrawon, trefniadau ac adnoddau asesu, gan gynnwys TGCh;
- amserlen sy'n galluogi hyfforddeion i arsylwi ac addysgu'r ystod oed arbenigol a ddewiswyd ganddynt a chael profiad o grwpiau blynyddoedd eraill yn y cyfnod cynradd;
- cyfleoedd wedi eu cynllunio i ddatblygu dealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â pharhad, dilyniant a throsglwyddo oddi mewn a rhwng cyfnodau allweddol; ac
- amserlen sy'n galluogi hyfforddeion i addysgu disgyblion ag ystod o alluoedd ar draws pynciau'r cwricwlwm cynradd.

Cynllunio ar gyfer mentora effeithiol mewn ysgolion

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn gyfarwydd ag elfennau o gwrs yr hyfforddeion yn y coleg. Yn yr achosion gorau, mae mentoriaid yn defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu hyfforddiant yn y coleg a hyfforddiant yn yr ysgol i ddarparu profiad cydlynol a datblygiadol yn yr ysgol i'r hyfforddeion. Yn yr achosion gorau, bydd y mentor, y tiwtor coleg a'r hyfforddeion yn cyd-gynllunio'r lleoliad yn yr ysgol ac yn ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cryfderau'r hyfforddeion yn cael eu gwella a'u hanghenion yn cael eu bodloni. Mae'r mentor yn nodi meysydd ar gyfer datblygiad yr hyfforddeion, ac yn gosod targedau ar sail euproffil asesu unigol.

Mae nifer o ysgolion wedi datblygu rhaglenni seminar da ar gyfer hyfforddeion. Fel arfer bydd y rhaglenni hyn yn cael eu trefnu a'u harwain gan yr uwch aelod o'r staff sy'n gyfrifol am fentora. Cyfres o sesiynau wythnosol yw'r rhain fel arfer, sy'n galluogi hyfforddeion i gael dealltwriaeth bellach o faterion ysgol gyfan, er enghraifft, cyfle cyfartal, asesu ac anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliaeth ac arweiniad effeithiol i hyfforddeion

Yn yr ysgolion hynny lle mae'r mentora'n arbennig o effeithiol, mae'r mentoriaid yn deall y cyfrifoldeb sydd arnynt i ddarparu cynhaliaeth ac arweiniad wedi eu targedu'n dda ar gyfer hyfforddeion. Mae'r mentoriaid yn sensitif i anghenion hyfforddeion, ac yn eu cynorthwyo i ddadansoddi eu hanawsterau ac i ganfod y dulliau datrys mwyaf effeithiol. Lle mae'r arfer yn dda, mae mentoriaid yn trefnu sesiynau cynhaliaeth unigol rheolaidd ar gyfer hyfforddeion. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau'r wythnos a chynnydd pob hyfforddai mewn perthynas â'r targedau a osodir. Mae'r mentoriaid yn rhoi adborth adeiladol o'u nodiadau arsylwi eu hunain a staff eraill, a byddant hwythau a'r hyfforddeion yn gosod targedau pellach gyda'i gilydd ar gyfer yr wythnos ganlynol. O ganlyniad i'r gynhaliaeth hon, mae'r hyfforddeion gorau'n gallu nodi'n gywir y cryfderau a'r diffygion yn eu haddysgu ac yn gallu arfarnu dysgu'r disgyblion. Yn sgil hyn, gall yr hyfforddeion ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w cynorthwyo i gynllunio gwersi yn y dyfodol.

Sicrhau ansawdd yr asesu

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn arsylwi hyfforddeion yn rheolaidd. Bydd y mentoriaid yn sicrhau eu bod yn rhoi cofnod ysgrifenedig o'r arsylwi, gan gynnwys dyfarniadau a thargedau ar gyfer gwella. Byddant hefyd yn rhoi adborth llafar i'r hyfforddeion ar bob sesiwn arsylwi. Yn yr arfer gorau, mae'r mentoriaid yn cydnabod yr angen i ddarparu adroddiadau sy'n arfarnol ac sy'n amlwg yn gysylltiedig â'r safonau y disgwylir i hyfforddeion eu cyflawni. Mae'r mentoriaid yn sicrhau bod yr hyfforddeion a'r tiwtor cyswllt o'r sefydliad addysg uwch ill dau'n cael copi o'r adroddiadau.

Mae nifer o ysgolion wedi cyflwyno trefniadau i safoni eu hasesiad o gyflawniadau hyfforddeion. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi addysgu'r hyfforddeion ar y cyd gan y pennaeth neu'r uwch fentor, ac weithiau uwch fentoriaid o ysgolion eraill.

Enghreifftiau o arfer da

Astudiaeth achos 5: mentora sy'n rhoi cynhaliaeth mewn perthynas â thargedau blaenorol

Cyn cyfarfod â hyfforddai, mae'r mentor yn darllen y wybodaeth a ddarparwyd gan y sefydliad addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar gefndir a chymwysterau'r hyfforddai yn ogystal â chopi o adroddiad yr ysgol o'r profiad ysgol blaenorol. Dengys yr adroddiad hwn fod angen i'r hyfforddai wella'i dealltwriaeth a'i chymhwysiad o'r Cwricwlwm Cymreig yn yr ail brofiad mewn ysgol. Yn eu cyfarfod cyntaf, mae'r mentor yn gofyn i'r hyfforddai fyfyrio ar ei phrofiad cyntaf mewn ysgol. Ar sail hyn, mae'r mentor yn cynllunio amserlen gyda staff allweddol yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys profiadau arsylwi ac addysgu i ehangu dealltwriaeth yr hyfforddai o'r Cwricwlwm Cymreig.

Astudiaeth achos 6: mentora sy'n cynnwys pennu targedau newydd

Mewn ysgol sydd â nifer fawr o hyfforddeion, mae'r mentor yn rhoi sylw i hyder a phrofiad yr hyfforddeion wrth addysgu agweddau amrywiol ar y cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r mentor yn trefnu gwersi arddangosiadol mewn pynciau lle mae'r hyfforddai'n dangos diffyg hyder neu brofiad addysgu blaenorol. Mae hyn yn ffordd dda i athrawon a chydlynwyr pwnc effeithiol rannu eu profiad.. Mewn rhai achosion, mae'r mentor yn defnyddio fideos o arfer da yn hytrach na gwersi arddangosiadol. Yn yr achos dan sylw, mae diffyg hyder gan nifer o hyfforddeion wrth addysgu addysg gorfforol. Felly, mae'r ysgol yn trefnu cyfres o wersi arddangosiadol ar draws cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Y nod yw egluro'r cynnydd yn nysgu'r disgyblion a thynnu sylw at bwyntiau allweddol yn yr addysgu. Mae'r mentor a'r hyfforddeion yn trafod y materion mewn seminar dilynol.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- cynhaliaeth wedi'i thargedu ar gyfer hyfforddeion ar sail eu hanghenion unigol;
- yr hyfforddeion yn gwella wrth sylwi ar y parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion ac yn cymhwyso hyn i'w haddysgu eu hunain; a
- sesiwn seminar dilynol sy'n cynnig cyfle da i hyfforddeion drafod yr hyn maent wedi ei weld.

Astudiaeth achos 7: systemau adborth a safoni effeithiol

Mae'r mentoriaid mewn un ysgol yn rhoi adborth ysgrifenedig ar bron pob un o wersi'r hyfforddeion. Mae hyn yn ychwanegol at fodloni gofynion y sefydliad addysg uwch. Mae'r adborth hwn, ar ffurflen a ddyluniwyd gan yr ysgol, yn cynnwys rhyw bump o frawddegau byrion a phwynt gweithredu. Mae'r mentoriaid yn teimlo bod y broses yn rhoi ffocws clir i'w sylwadau ac yn ddefnydd effeithiol o'u hamser. Bydd y mentoriaid yn arsylwi addysgu'r hyfforddeion ac yn gwneud nodiadau bras ar y ffurflen. Mae'r hyfforddeion yn gwerthfawrogi'r adborth ysgrifenedig manwl hwn, sy'n cael ei fwydo i gronfa fanwl o faterion i rhoi sylw iddynt. Gall yr hyfforddeion wedyn gyfeirio'n ôl at y rhain, a myfyrio arnynt, yn hwyrach yn ystod y profiad ac ar ôl dychwelyd i'r coleg. Mae'r uwch fentor yn sefydlu system i safoni ac arfarnu gwaith mentoriaid a'r cynnydd a wneir gan hyfforddeion yn yr ysgol. Mae'r system hon o roi adborth ysgrifenedig yn galluogi'r uwch fentor i gadw golwg fanwl ar ansawdd gwaith y mentoriaid a'r hyfforddeion. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gan y mentoriaid yn gyson a phriodol.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- darparu adborth ysgrifenedig rheolaidd a chyson i'r hyfforddeion;
- monitro cynnydd yr hyfforddeion yn effeithiol gan fentoriaid, tiwtor coleg a phennaeth; a
- safoni ac arfarnu gwaith hyfforddeion a mentoriaid gan yr uwch fentor sy'n sicrhau cysondeb yn yr hyfforddiant a ddarperir gan yr ysgol.

5. Dylanwad mentora effeithiol

Cymryd rhan mewn partneriaethau mentora

Mewn mentora effeithiol, mae partneriaeth yn cael dylanwad buddiol ar bawb sy'n ymwneud â hi. Mae'r sefydliad addysg uwch, ei ysgolion partner a'r athrawon cynradd dan hyfforddiant bob un yn elwa o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae'r holl bartneriaid yn gwerthfawrogi'r dimensiwn ysgogol a rydd y broses fentora ac yn mwynhau'r her o weithio mewn partneriaeth.

Dylanwad mentora effeithiol ar ysgolion

Mae bod yn rhan o bartneriaethau mentora'n annog ysgolion i fyfyrio ar eu harfer eu hunain a gwella arno. Mae staff a disgyblion yn elwa o gyfleoedd i rannu syniadau a mentrau newydd gyda hyfforddeion. Mae ysgolion yn elwa hefyd o arbenigedd pwnc a phrofiadau blaenorol rhai hyfforddeion.

Mae ysgolion wedi mabwysiadu nifer o systemau gwahanol i alluogi mentoriaid i wneud eu gwaith yn effeithiol. Er enghraifft, gall hyn olygu bod y mentor yn cyfnewid dosbarthiadau â'r athro dosbarth i arsylwi addysgu'r hyfforddai. Gall y pennaeth hefyd addysgu dosbarth y mentor fel y bydd yr athro dosbarth a'r mentor yn gallu rhoi cynhaliaeth i'r hyfforddai. Mae materion a godwyd drwy'r broses arsylwi ar y cyd a'r trafodaethau dilynol gyda hyfforddeion yn cyfrannu at ddatblygu medrau arsylwi'r athro ei hun ac at drefniadau monitro ac arfarnu'r ysgol.

Defnyddia ysgolion arian a drosglwyddir o sefydliadau addysg uwch mewn amryw ffyrdd. Bydd rhai ysgolion yn ei ddefnyddio i neilltuo amser di-gyswllt ar gyfer seminarau a chyfarfodydd adborth ac adolygu. Mewn ysgolion eraill, mae mentoriaid yn cael pwyntiau lwfans fel cymhelliad am eu gwaith gyda hyfforddeion.

Mae ysgolion fwyfwy yn defnyddio'r medrau y maent wedi eu datblygu drwy weithio gyda hyfforddeion ar gyfer anwytho athrawon sydd newydd gymhwyso yn mlwyddyn gyntaf eu haddysgu. Bydd llawer yn defnyddio'r canllawiau ysgrifenedig y maen nhw a'r sefydliad addysg uwch wedi eu cynhyrchu i roi cynhaliaeth i athrawon sydd newydd gymhwyso. Mae medrau mentora, a ddatblygwyd drwy gymryd rhan yn y partneriaethau, yn trosglwyddo'n hawdd i fentora aelodau staff newydd yn yr ysgol.

Dylanwad partneriaeth effeithiol ar hyfforddeion

Mae datblygiad proffesiynol cynnar yn digwydd lle mae profiadau ysgol yn perthnasu'n agos â hyfforddiant yn y coleg, a lle mae dadansoddiad o gryfderau a diffygion yr hyfforddai a thargedau ar gyfer gwelliant. Mae'r safonau a gyflawnir gan hyfforddeion yn gwella pan fydd yr adborth yn pennu argedau clir sy'n gwella eu haddysgu hwythau a dysgu'r disgyblion.

Mae hyfforddeion yn elwa o gyfleoedd i arsylwi neu gynorthwyo â gwersi enghreifftiol gan arbenigwyr pwnc. Lle mae'r hyfforddeion yn gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig, mae mentora'n eu cynorthwyo i ddatblygu'r medrau y mae eu hangen i fodloni anghenion ychwanegol y disgyblion hyn. Mae hyn yn cynnwys disgyblion dawnus a thalentog neu'r rhai sydd ag anawsterau dysgu penodol. Mae hyfforddeion yn elwa'n broffesiynol lle disgwylir iddynt gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Lle cânt eu trin fel aelodau staff, eu cynnwys mewn rhaglenni datblygiad staff a'u hannog i gyfarfod â rhieni, mae'r hyfforddeion yn datblygu dealltwriaeth well o rôl yr athrawon a'r ysgol yn y gymuned ehangach.

Dylanwad mentora effeithiol ar fentoriaid

Mae mentoriaid ac athrawon dosbarth hefyd yn elwa ac yn datblygu'n broffesiynol o gymryd rhan mewn partneriaethau mentora. Mae arsylwi hyfforddeion a rhoi adborth yn gymorth i bob athro adolygu ei dduliau addysgu ei hun, a myfyrio arnynt. Bydd mentoriaid yn magu hyder ac yn gallu rhannu gwybodaeth am arfer da yn well. Maent yn datblygu eu medrau rheoli a'u medrau rhyngbersonol. I lawer, mae mentora wedi ysgogi diddordeb i gymryd rhan mewn addysg uwch, ac mae rhai wedi ennill cymwysterau ar lefel Meistr. Mae nifer cynyddol o staff mewn ysgolion wedi sicrhau dyrchafiad yn rhannol o ganlyniad i'r medrau a ddatblygwyd ganddynt drwy fentora. Mae mentoriaid hefyd yn elwa o weithio ar y cyd â chydweithwyr o ysgolion eraill i safoni eu gwaith gyda hyfforddeion.

O ganlyniad i weithio gyda hyfforddeion, mae cydlynwyr pwnc hefyd yn defnyddio'r medrau a ddatblygwyd ar gyfer monitro'r pynciau yn yr ysgol. Maent yn annog hyfforddeion ac athrawon i ganolbwyntio ar ddysgu a chyflawniad disgyblion, ac yn gosod targedau heriol a fydd yn codi safonau.

Dylanwad mentora effeithiol ar sefydliadau addysg uwch

Mae sefydliadau addysg uwch yn elwa o bartneriaeth effeithiol gydag ysgolion. Mae prosiectau ar y cyd sy'n cynnwys staff yr ysgol a staff y coleg yn gymorth i gydlynu'r hyfforddiant yn yr ysgol a hyfforddiant yn y coleg. Mae cyfleoedd i gydweithio yn arwain at gyfnewid syniadau a gwybodaeth am ddulliau addysgu a strategaethau dysgu cyfredol. Mae cyswllt agos gydag ysgolion partner yn cynnig cyfleoedd i staff yn y coleg i ddatblygu eu gwaith ymchwil. Arweinia hyn at addasu agweddau ar y cwrs yn y coleg. Mae'r sefydliad addysg uwch hefyd yn elwa yn sgil rôl gynyddol y mentor ysgol mewn agweddau ar y cwrs yn y coleg. Mae rhannu arfer da, syniadau newydd a mentrau yn yr ysgol bob un yn rhoi gwybodaeth lawn i'r sefydliad addysg uwch ynghylch yr arferion a threfniadau dydd i ddydd yn ei ysgolion partner. Lle mae'r bartneriaeth wedi ei datblygu'n arbennig o dda, mae rôl y mentor yn medru datblygu, er enghraifft, i chwarae rhan mewn cyfweliadau hyfforddiant athrawon, cynllunio ac arfarnu cyrsiau a mynychu cyfarfodydd cwrs a byrddau arholi.

Enghreifftiau o ddylanwad mentora effeithiol

Astudiaeth achos 8: arfarnu partneriaeth

Mae gwybodaeth fanwl a gasglwyd oddi wrth fentoriaid, hyfforddeion, tiwtoriaid cyswllt coleg ac adroddiadau arholwyr allanol wedi galluogi un sefydliad addysg uwch i gynhyrchu arfarniad manwl o'r bartneriaeth ar ffurf llyfryn. Mae'r llyfryn arfarnu hwn yn amlinellu cryfderau'r bartneriaeth yn glir ac yn nodi meysydd allweddol ar gyfer gwelliant. Mae'r sefydliad addysg uwch a'r ysgolion partner, fel ei gilydd, wedi gwneud defnydd da o'r llyfryn i wella'r bartneriaeth.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- arfarnu'r ddarpariaeth yn fanwl, yn cynnwys holl aelodau'r bartneriaeth;
- nodi'n glir gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant; ac
- arfarnu deilliannau'r bartneriaeth ar y cyd a gweithredu i'w gwella.

Astudiaeth achos 9: hyfforddiant ar gyfer ysgolion partner gwledig

Mae staff o ysgolion partner sy'n gweithio ymhell o'r sefydliad addysg uwch, yn enwedig mewn ysgolion bach, yn ei chael yn anodd mynychu sesiynau hyfforddiant mentora rheolaidd. Cychwynnodd un sefydliad addysg uwch yn ddiweddar ar brosiect sy'n cael cefnogaeth y Cyngor Cyllido Addysg Uwch i gynhyrchu pecyn hyfforddi dwyieithog y gellir ei ddefnyddio i hyfforddi staff mewn clwstwr o ysgolion. Ffurfiodd grwpiau o ysgolion a'r sefydliad addysg uwch bwyllgor llywio partneriaeth leol a chydweithio i ddatblygu adrannau gwahanol y pecyn. Bydd pob adran yn cael eu treialu mewn ysgolion partner ac yn cael eu harfarnu gan aseswr allanol cyn eu cyhoeddi.

Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- dyfeisgarwch i fodloni anghenion staff mewn ysgolion partner sy'n gweithio ymhell o'r sefydliad addysg uwch;
- deunyddiau a gynhyrchir ar y cyd gan staff yn y coleg a staff yn yr ysgol;
- cynhyrchu deunyddiau hyfforddi dwyieithog; a
- threfniadau monitro ac arfarnu eglur i asesu ansawdd y pecyn hyfforddi.

6. Y ffordd ymlaen

Er mwyn gwella ansawdd y mentora mewn hyfforddiant athrawon cynradd a chynyddu dylanwad mentora, mae angen sicrhau'r canlynol:

- trefniadau ar gyfer arfarnu hyfforddiant yn yr ysgol yn cael eu defnyddio'n gyson i gynnal safonau uchel ar draws ysgolion. Dylai hyn gynnwys:
    - arfarnu dylanwad sesiynau hyfforddi mentoriaid;
    - monitro effeithiolrwydd gwaith mentoriaid;
    - darparu adborth trylwyr i fentoriaid ar ba mor dda y maent yn cyflawni eu rôl; a
    - monitro ac arfarnu profiadau'r hyfforddeion yn yr ysgol;

- mwy o ran i fentoriaid wrth gynllunio, cyflwyno, rheoli ac yn arbennig wrth fonitro ac arfarnu'r cwrs yn y coleg;

- pob aelod o'r staff sy'n mentora hyfforddeion yn cael hyfforddiant cychwynnol a rheolaidd parhaol a phriodol sy'n adeiladu ar yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud yn barod, ac sy'n cynnwys cyfleoedd i rannu arfer da;

- digon o wybodaeth i ysgolion am brofiad a pherfformiad blaenorol yr hyfforddeion;

- mentoriaid yn gosod targedau clir a mesuradwy ar gyfer hyfforddeion i wella eu perfformiad;

- sicrhau bod adborth mentoriaid i'r hyfforddeion yn canolbwyntio ar ddysgu'r disgyblion yn ogystal ag ansawdd addysgu'r hyfforddeion;

- mentoriaid yn cynorthwyo hyfforddeion i ddysgu sut i wneud asesiadau cywir o gynnydd y disgyblion;

- sefydliadau addysg uwch yn annog ysgolion i wneud trefniadau ar gyfer safoni cynnydd hyfforddeion, er enghraifft, drwy arsylwi gwersi fesul pâr;

- ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn rhoi digon o amser i fentoriaid a thiwtoriaid i'w galluogi i gyflawni'u rôl yn effeithiol;

- mwy o gyfleoedd i hyfforddeion arsylwi arfer da mewn ysgolion partner, a gwell defnydd gan ysgolion o fedrau ac arbenigedd hyfforddeion yn ystod eu profiad ysgol;

- cofnodi newidiadau yng ngofynion y bartneriaeth yn glir i osgoi anghysonderau yn yr hyfforddiant o fewn ysgolion a rhyngddynt; a

- darparu canllawiauysgrifenedig dwyieithog i fentoriaid mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.